# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR 17-09-12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr :** Stephen W. Churchman, Anwen Davies, Aled Evans, Gweno Glyn Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Jason Humphreys, Llywarch Bowen Jones, Michael Sol Owen, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams, R.H. Wyn Williams a Robert J. Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Alun Roberts, (Peiriannydd Ardal Dwyfor), Dafydd Wyn Williams, (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Gerwyn Jones, (Rheolwr Uned Cludiant Integredig), ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau :** E. Selwyn Griffiths.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2012 fel rhai cywir.

## 3. MATERION BRYS

a) Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr a dderbyniwyd oddi wrth 'Cyfeillion Llŷn' yn datgan pryder ynglŷn â'r hyn maent yn ystyried yn fygythiad aruthrol i harddwch Llŷn, yn sgil datblygiad y diwydiant ynni gwynt.

b) 'Roedd y Cadeirydd yn awyddus i'r Pwyllgor hwn drafod y mater fel mater brys a nododd mai'r rheswm dros ei benderfyniad i ganiatáu trafodaeth oedd cyfrifoldeb statudol pob cynghorydd i warchod harddwch naturiol ardal Llŷn.

c) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i leisio barn ar y mater a mynegwyd pryder parthed y nifer o geisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt sy'n cael eu derbyn ar hyn o bryd.

ch) Ychwanegwyd nad oedd gan Gyngor Gwynedd bolisïau pendant mewn perthynas ag ymdrin â thyrbinau gwynt. Fodd bynnag nododd aelod bod canllawiau pellach ar fin cael eu cyhoeddi i fod yn rhan o bolisïau sy'n bodoli eisoes.

d) Awgrymwyd y gellid gohirio penderfyniad ar bob cais am dyrbinau gwynt hyd nes bod ymchwiliad manwl wedi ei gynnal a pholisïau pendant yn weithredol. Ond pwysleisiodd aelodau eraill y gallasai hyn arwain at apeliadau'n cael eu gwneud yn erbyn y Cyngor.

Cytunwyd y dylai Pwyllgor Ardal Dwyfor:
a) ddatgan pryder parthed y nifer o geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno am dyrbinau gwynt ar hyn o bryd a'r effaith allasai hyn ei gael ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn ogystal ag ardaloedd cyfagos;

b) gysylltu â'r Pwyllgor Craffu priodol a thynnu sylw at y sylwadau a wnaed yn y llythyr a gyflwynwyd gan 'Cyfeillion Llŷn'.

c) wneud cais i'r Pwyllgor Craffu roi sylw penodol i rai agweddau o bolisïau sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt, yn enwedig yn ardal Llŷn a Dwyfor yn gyffredinol.

**4. RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL YN ARDAL DWYFOR**

a) Cyflwynwyd adroddiad Peiriannydd Ardal Dwyfor a rhoddwyd cyfle i'r aelodau i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

b) Ymhelaethodd y swyddog ar agweddau o'r rhaglen waith mewn ymateb i ymholiadau aelodau a thynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod angen gwybodaeth fanylach ynglŷn â Chynllun Benthyciad Llywodraeth Cymru sy'n golygu fod Cyngor Gwynedd yn benthyca £4.3 miliwn yn flynyddol dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer rhaglen o ail-wynebu ffyrdd a gwelliannau drwy'r Sir;
- Y posibilrwydd o ymestyn gwaith Tîm Gorfodaeth Stryd mewn perthynas ag ymdrin â phroblemau baw cŵn. Ar hyn o bryd mae'r gwaith wedi ei ganolbwyntio ym Mhorthmadog, Pwllheli a Chricieth;
- Bod angen cymryd gofal neilltuol, yn ogystal â chysylltu â'r teuluoedd wrth ymdrin â'r rhaglen archwilio cofebion mewn mynwentydd;
- Bod cyflwr llawer o'r toiledau yn Ardal Dwyfor yn achos cryn bryder;
- Bod angen ychwaneg o finiau baw cŵn mewn mannau addas hyd Lwybr yr Arfordir a bod hyn yn amlwg rhwng Llanbedrog a Phwllheli;
- Bod angen sicrhau caeau chwarae o safon yn yr Ardal;
- Bod sylw'n cael ei roi i gyflwr rhai ffyrdd penodol megis yng nghefn yr Eglwys yng Nghlynnog a'r ffordd rhwng Llanaelhaearn a Nefyn;
- Y dylid ystyried y posibilrwydd o ddatganoli rhai pwerau o Gyngor Gwynedd i gynghorau tref a chymuned, a bod rhaid i'r gyllideb ar gyfer y gwasanaethau gael eu trosglwyddo hefyd.

c) Gwnaed cais ar i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i ddarparu adroddiad ar yr egwyddor o ddatganoli pwerau, megis gofalu am fynwentydd a

meysydd chwarae, i gynghorau tref a  chymuned gyda sylw'n cael ei roi i'r oblygiadau ariannol o wneud hynny.

**4. GWASANAETHAU BWS LLEOL A CHLUDIANT DYSGWYR DWYFOR**

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio gan Reolwr Uned Cludiant Integredig ac Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd.

b) Eglurwyd bod sylw'n cael ei roi ar hyn o bryd i adolygiad o wasanaethau cludiant i deithwyr yn Ardal Dwyfor a bod sgôp yr adolygiad yn cynnwys cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bws lleol.

c) Cyfeiriodd aelod at gyfarfod a gynhaliwyd gyda swyddogion, yr Aelod Cabinet perthnasol ynghyd â  thri chynghorydd arall a chynrychiolwyr cwmnïau bysiau lleol yn bresennol. Credai fod y cyfarfod wedi bod yn adeiladol a nododd bod cyfle bellach i'r cwmnïau ystyried y llwybrau bysiau a'u cael yn fwy effeithiol gyda rhai gwasanaethau'n cael eu torri os nad oedd eu hangen.

ch) Fodd bynnag, galwodd yr aelod am dystiolaeth bod ymgynghoriad cynhwysfawr wedi ei gwblhau a bod drafft yn ei le fel y byddai'r Pwyllgor Ardal yn gallu ei graffu cyn i drefniadau newydd fod yn weithredol.

ch) Rhoddwyd cyfle pellach i'r aelodau wneud sylwadau ac i ofyn cwestiynau a thynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod angen rhoi ystyriaeth drylwyr i sefyllfa'r gwasanaeth yng nghefn gwlad;
- Bod angen i'r cwmnïau bysiau gydweithio fel y bydd y gwasanaeth yn gynaliadwy;
- Bod costau cludo plant a phobl ifanc i ysgolion a cholegau chweched dosbarth yn afresymol o uchel, a bod hyn yn amlwg i deuluoedd gyda mwy nag un plentyn;
- Bod maes eang dan sylw gydag unrhyw doriadau'n cael effaith ar amrywiol grwpiau, megis yr oedrannus, o fewn cymuned;
- Bod angen newidiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth effeithiol ar gael.

Galwyd ar i ddrafft ar ganlyniad ymgynghoriad i'r gwasanaeth bws lleol a chludiant dysgwyr Ardal Dwyfor yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Ardal ar gyfer ei graffu cyn i drefniadau newydd fod yn weithredol.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.15pm a daeth i ben am 7.45pm